OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 105 (Cy.24)

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Hysbysu) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - - *18 Ionawr 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *24 Ionawr 2011*
Yn dod i rym - - *1 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 30A(3) a (4) a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Hysbysu) (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Safonau Gofal 2000.

Gwybodaeth sydd i'w chynnwys mewn hysbysiad a anfonir o dan adran 30A(2) o'r Ddeddf

2.—(1) Rhaid i hysbysiadau a anfonir o dan adran 30A(2) o'r Ddeddf gynnwys pan fo'n briodol yr wybodaeth a roddir ym mharagraffau (2), (3), (4) a (5).

(2) Rhaid i hysbysiadau o dan bob paragraff o dan adran 30A(2) gynnwys —

(a) disgrifiad o'r sefydliad neu'r asiantaeth(**2**);

(b) rhif tystysgrif gofrestru'r sefydliad neu'r asiantaeth;

(c) enw a chyfeiriad y person sy'n rhedeg neu'n rheoli'r sefydliad neu'r asiantaeth;

(ch) y dyddiad yr anfonir yr hysbysiad arno; a

(d) pa baragraff o adran 30A(2) o'r Ddeddf yr anfonir yr hysbysiad oddi tano.

(3) Rhaid i hysbysiad o dan adran 30A(2) (aa) neu (ab) (penderfynu i fabwysiadau neu hysbysiad i atal dros dro neu i ymestyn yr ataliad dros dro) gynnwys cyfnod parhad yr ataliad a'r rheswm drosto.

(**1**) 2000 p.14. Mewnosodwyd adran 30A i'r Ddeddf Safonau Gofal ("y Ddeddf") gan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008. Ystyr "rhagnodedig" yw wedi ei ragnodi mewn rheoliadau a wnaed o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i Weinidogion Cymru drwy baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) Mae adran 30A(6) o'r Ddeddf yn rhestru'r sefydliadau a'r asiantaethau y mae adran 30A yn gymwys iddynt.